

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 22 Ionawr 2020

Rhif Union: 01824706141

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 28 IONAWR 2020** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD (Tudalennau 5 - 6)

Nodi ymrwymadau dinesig a ymgwymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

5 COFNODION (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2019 (copi ynghlwm).

6 CYLLIDEB 2020/21 - CYNIGION TERFYNOL (Tudalennau 19 - 44)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo (copi ynghlwm) i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am broses y gyllideb ac effaith y Setliad Llywodraeth Leol a chymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2020/21, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

7 CYNLLUN LLEIHOU TRETH Y CYNGOR 2020/21 (Tudalennau 45 - 72)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Budd-daliadau a'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo (copi ynghlwm) i fabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) (Diwygio) 2020, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2020/2021.

8 CYFLOG BYW GO IAWN (Tudalennau 73 - 78)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo a'r Arbenigwr Tâl a Gwobrwyon (copi ynghlwm) i ddarparu gwybodaeth ac ystyried goblygiadau talu'r Cyflog Byw Go Iawn.

9 GWEITHREDU MODEL DARPARU AMGEN AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/ SWYDDOGAETHAU HAMDDEN: PENODI CYFARWYDDWYR ANNIBYNNOL (Tudalennau 79 - 82)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (copi ynghlwm) i benodi dau Gyfarwyddwr annibynnol i Fwrdd Hamdden Sir Ddinbych Cyf.

10 OSGOI DEFNYDDIO A LLEIHOU LEFELAU PLASTIG YN SWYDDFEYDD CYNGOR SIR DDINBYCH (Tudalennau 83 - 110)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad (copi ynghlwm) i ystyried sut gall y Cyngor leihau faint o blastig mae'n ei ddefnyddio.

11 ARGYFWNG YR HINSAWDD AC ECOLEGOL - ADRODDIAD CYNNYDD AM GYNNIG Y CYNGOR (Tudalennau 111 - 130)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Prosiect (copi ynghlwm) i ddarparu gwybodaeth am y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y Gweithgor trawsbleidiol Argyfwng yr Hinsawdd ac Ecolegol.

12 RHYBUDD O GYNNIG (Tudalennau 131 - 132)

Y Cyngor i ystyried Hysbysiad o Gynnig – "Tân Gwyllt" gan y Cynghorwyr Brian Blakeley, Gwyneth Kensler a Julian Thompson-Hill (copi ynghlwm)

13 RHYBUDD O GYNNIG (Tudalennau 133 - 134)

Y Cyngor i ystyried Hysbysiad o Gynnig - "Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth" gan y Cynghorydd Joan Butterfield (copi ynghlwm).

14 RHYBUDD O GYNNIG (Tudalennau 135 - 136)

Y Cyngor i ystyried Hysbysiad o Gynnig – "Amrywiaeth" gan y Cynghorydd Rhys Thomas (copi ynghlwm).

15 RHYBUDD O GYNNIG (Tudalennau 137 - 138)

Y Cyngor i ystyried Hysbysiad o Gynnig - "Plastigau" gan y Cynghorydd Rachel Flynn (copi ynghlwm)."

16 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR (Tudalennau 139 - 144)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Alan James (Is-
Gadeirydd)

Mabon ap Gwynfor
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Ellie Chard
Ann Davies
Gareth Davies
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Rachel Flynn
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Hugh Irving
Brian Jones
Huw Jones
Pat Jones
Tina Jones
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams
Richard Mainon

Barry Mellor
Melvyn Mile
Bob Murray
Merfyn Parry
Paul Penlington
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Anton Sampson
Peter Scott
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Rhys Thomas
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Graham Timms
Joe Welch
Cheryl Williams
David Williams
Eryl Williams
Huw Williams
Emrys Wynne
Mark Young

Christine Marston

COPIAU I'R:

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Eitem Agenda 4

Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd / Events attended by Chairman

<u>Dyddiad/Date</u>	<u>Digwyddiad/Event</u>	<u>Lleoliad/Location</u>
05/10/19	Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych Urdd Eisteddfod Proclamation Ceremony	Prestatyn
06/10/19	Dathliadau Penblwydd Priodas Diamwnt Diamond Wedding Anniversary Celebrations	Rhuddlan
07/10/19	Derbyniad a Chinio Safle Treftadaeth y Byd World Heritage Site Reception Event and Dinner	Llangollen
12/10/19	Digwyddiad Penwythnos Cwmni'r Fifth Wheel Fifth Wheel Company Experience Weekend Event (Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice-Chair attended)	Llanelwy / St. Asaph
13/10/19	Gwasanaeth Dinesig Cadeirydd Sir Ynys Môn Isle of Anglesey Chairman's Civic Sunday	Ynys Môn / Anglesey
15/10/19	Cyfarfod Blynyddol efo Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned / Annual Meeting with City, Town & Community Councils	Rhuthun / Ruthin
17/10/19	Dathliadau Penblwydd 30 oed Clwb Bowlio'r Ffrith 30th Birthday celebrations of the Ffrith Bowls Club	Prestatyn
21/10/19	Ymweliad Ysgol i Neuadd y Sir School Visit to County Hall (Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice-Chair attended)	Rhuthun / Ruthin
30/10/19	Seremoni Graddio ym Mhrifysgol Glyndwr Glyndwr University Graduation Ceremony	Wrecsam / Wrexham
31/10/19	Sesiwn Natur Calan Gaeaf Parc Dyffryn Teg Dyffryn Teg Park Spooky Nature Session	Rhuallt
06/11/19	Ymweliad Ysgol i Neuadd y Sir School Visit to County Hall	Rhuthun / Ruthin
07/11/19	Noson Wobrwyo Chwaraeon Sir Ddinbych Denbighshire Community Sports Awards	Llangollen
08/11/19	Digwyddiad Gwobrwyo Rhagoriaeth Sir Ddinbych Excellence Denbighshire Awards	Llangollen
10/11/19	Sul y Cofio Remembrance Sunday	Dinbych / Denbigh
15/11/19	Seremoni Ddinasyddiaeth Citizenship Ceremony	Rhuthun / Ruthin
17/11/19	Gwasanaeth Dinesig Maer Caerwys Mayor of Caerwys' Civic Service	Caerwys

27/11/19	Ymweliad Ysgol i Neuadd y Sir School Visit to County Hall	Rhuthun / Ruthin
05/12/19	Ymweliad Ysgol i Neuadd y Sir School Visit to County Hall	Rhuthun ./ Ruthin
10/12/19	Dathliad y Nadolig – Gwasanaeth Carolau Sir Ddinbych / A Christmas Celebration – Denbighshire Carol Serice	Dinbych / Denbigh
14/12/19	Digwyddiad Codi Pres Vale of Clwyd MIND Vale of Clwyd Mind Fundraising Event	Y Rhyl / Rhyl
15/12/19	Cyngerdd Nadolig Elusennol wedi'i drefnu ar y cyd rhwng Cadeirydd Sir y Fflint ac Uchel Siryf Clwyd Chair of Flintshire and High Sheriff of Clwyd Christmas Charity Concert	Yr Wyddgrug / Mold
20/12/19	Seremoni Ddinasyddiaeth Citizenship Ceremony	Rhuthun / Ruthin

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 15 Hydref 2019 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies (Cadeirydd), Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Hugh Irving, Alan James (Vice-Chair), Brian Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Barry Mellor, Melvyn Mile, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Peter Scott, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Cyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Cynllunio a Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (AL), Swyddog Cynllunio (KB), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Swyddog y Gwasanaethau Etholiadol (GE), Swyddog Craffu (RE), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwr(wyr) Peter Arnold Evans, Martyn Holland, Huw Jones, Tina Jones, Richard Mainon, Christine Marston, Bob Murray, Anton Sampson a/ac David Williams

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyng. Gwyneth Kensler gysylltiad personol ag eitem 6 ar y rhaglen (Gweithredu Model Darparu Amgen ar gyfer Amrywiol Weithgareddau / Swyddogaethau Cysylltiedig â Hamdden: Cyfansoddiad y Bwrdd Cyfarwyddwyr) gan fod Craig Kensler yn aelod o Ganolfan Hamdden Sir Ddinbych a'i bod yn mynd i Theatr Twm o'r Nant, Dinbych a Theatr y Pafiliwn, y Rhyl.

Datganodd y Cyng. Emrys Wynne gysylltiad personol ag eitem 7 (Llywodraeth Cymru: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040: Drafft Ymgynghori) gan fod aelod o'i deulu yn Arolygydd Cynllunio yng Nghymru.

Datganodd y Cadeirydd, y Cyng. Meirick Lloyd Davies, gysylltiad personol ag eitem 10 (Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Craffu'r Cyngor 2018/2019) gan ei fod yn aelod o Fwrdd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater bryn.

Ar y pwynt hwn, dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai cwestiwn yn cael ei gyflwyno:-

Gofynnodd y Cyng. Peter Scott y cwestiwn canlynol:-

“Ar 9 Hydref 2019 argraffodd y Journal erthygl tudalen flaen yn dweud y bydd penderfyniad ynghylch y safle sipsiwn yn cael ei wneud y diwrnod hwnnw. Gan hynny, ni fyddai unrhyw bwynt gwneud unrhyw sylw wedyn. Bydd pobl sy'n darllen hwn yn credu bod hynny'n gywir hyd nes bydd y Journal yn cyflwyno datganiad diwygiedig ar 16 Hydref 2019. Felly, bydd rhai wedi colli o leiaf wythnos i ymateb. Pam nad oes modd estyn y cyfnod ymgynghori un wythnos er mwyn darparu'r cyfnod teg byrraf i bobl ymateb i'r ymgynghoriad?”

Ymateb y Cyng. Mark Young, Aelod Arweiniol y Cyngor ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel –

“Nid camgymeriad Cyngor Sir Ddinbych yw hyn. Os yw hwn yn gais dilys oherwydd y posibilrwydd bod preswylwyr yn colli cyfle i ddweud eu dweud, yna rwyf yn fodlon siarad efo swyddogion am estyniad o wythnos.”

Y Cyng. Peter Scott –

“Rwyf o ddifrif ynghylch y cais hwn. Nid wyf yn credu bod unrhyw fai ar Gyngor Sir Ddinbych ac rwyf yn cydnabod bod yna wybodaeth ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Mae'r rhestr o ddigwyddiadau dinesig y mae'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi'u mynychu rhwng 25 Awst 2019 a 4 Hydref 2019 wedi'i chylchredeg cyn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD derbyn y rhestr o ddigwyddiadau dinesig y bu i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd eu mynychu.

5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn ar 10 Medi 2019.

Cywirdeb –

Ymddiheurodd y Cadeirydd nad oedd y munud o dawelwch er cof am y diweddar Elwyn Edwards wedi'i nodi yn y cofnodion.

Dylai tudalen 8, eitem 3 ddarllen “Hon yw'r sefyllfa gyfreithiol ond yr alwad gyntaf yw mynd i'r afael â'r ddyletswydd ymddiriedol.....”

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 10 Medi 2019 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

6 GWEITHREDU MODEL DARPARU AMGEN AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU A SWYDDOGAETHAU HAMDDEN: CYFANSODDIAD BWRDD CYFARWYDDWYR

Datganodd y Cyng. Gwyneth Kensler gysylltiad personol gan fod Craig Kensler yn aelod o Ganolfan Hamdden Sir Ddinbych a'i bod yn mynd i Theatr Twm o'r Nant, Dinbych a Theatr y Pafiliwn, y Rhyl.

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth yr adroddiad Gweithredu Model Darparu Amgen ar gyfer Amrywiol Weithgareddau / Swyddogaethau Hamdden: Cyfansoddiad Bwrdd Cyfarwyddwyr (a gylchredwyd yn barod) i ofyn am gymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni, penodi nifer o gyfarwyddwyr, a'r dull o benodi'r cyfarwyddwyr eraill.

Ar 30 Mai 2019 rhoddodd y Cyngor gymeradwyaeth i greu cwmni masnachu nid er elw cyfyngedig drwy warant fel model darparu amgen i ddarparu gwasanaethau hamdden ar ran y Cyngor.

Nid oedd unrhyw ofyniad statudol o ran maint y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Yr awgrym o fewn yr Achos Busnes oedd penodi saith cyfarwyddwr. Cynigwyd i ffurfio Bwrdd Cyfarwyddwyr fel a ganlyn:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus
- Rheolwr Gyfarwyddwr
- Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth
- Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd
- Aelod nad yw'n aelod o'r Cabinet
- Cyfarwyddwr Annibynnol x 2

Awgrymwyd y dylai'r cyfarwyddwr nad yw'n aelod o'r Cabinet fod yn berson â phrofiad ym myd busnes a/neu ddiddordeb yn y sector hamdden. Gofynnwyd am enwebiadau ac roedd yn rhaid i'r enwebeion gyflwyno datganiad yn nodi pam eu bod yn bodloni gofynion y swydd-ddisgrifiad i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd erbyn 12 p.m. ddydd Gwener 11 Hydref 2019. Mae un enwebiad wedi'i dderbyn a'i gylchredeg i bob Aelod cyn cyfarfod y Cyngor.

Derbyniwyd enwebiad gan y Cyng. Peter Prendergast sydd wedi cyflwyno CV gyda'i holl brofiadau busnes perthnasol.

Ar y pwynt hwn, cynigiodd y Cyng. Joan Butterfield y dylai'r Cyng. Peter Prendergast gael ei benodi i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ac eiliwyd y cynnig.

Bydd y ddwy sedd arall i gyfarwyddwyr yn cael eu llenwi gan unigolion annibynnol wedi'u recriwtio drwy hysbysebu agored. Awgrymwyd y dylid hysbysebu un o'r rolau hyn gyda phwyslais ar dderbyn ceisiadau gan unigolion sydd â chefnidir mewn hamdden fasnachol / cyllid, a'r llall gyda phwyslais ar dderbyn ceisiadau gan unigolion sydd â chefnidir mewn datblygu cymunedol / hamdden.

Bydd panel recriwtio gyda thri o aelodau etholedig a enwebir gan y Cyngor, yn ogystal â'r Rheolwr Gyfarwyddwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a chymorth gan AD, yn cwrdd i lunio rhestr fer ac yna i gyfweld ag ymgeiswyr posib. Bydd y panel

recriwtio wedyn yn argymhell i'r Cyngor pa unigolyn y dylid ei benodi a bydd gofyn i'r Cyngor roi cymeradwyaeth i hynny.

Ar y pwynt hwn, cynigiodd y Cyng. Julian Thompson-Hill, y dylai'r Cyng. Hugh Irving fod yn rhan o'r panel recriwtio ac fe eiliwyd y cynnig.

Cynigiodd y Cyng. Joan Butterfield y dylai'r Cynghr. Graham Timms a Brian Blakeley fod ar y panel recriwtio, ac eiliwyd y cynnig hwnnw.

PENDERFYNWYD:

- *Cymeradwyo cyfansoddiad Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni fel y nodir ym mharagraff 4.4 yr adroddiad a phenodi Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn gyfarwyddwyr y cwmni.*
- *Penodi'r Cyng. Peter Prendergast, nad yw'n aelod o'r Cabinet, i fod yn un o gyfarwyddwyr y cwmni.*
- *Cymeradwyo'r broses recriwtio arfaethedig ar gyfer penodi'r ddau gyfarwyddwr annibynnol a phenodi'r Cynghr. Brian Blakeley, Hugh Irving a Graham Timms i eistedd ar y panel recriwtio fel y nodir ym mharagraff 4.7 yr adroddiad.*
- *Bod yr Aelodau yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1, cyf. 564) fel rhan o'u hystyriaethau.*

7 LLYWODRAETH CYMRU: FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL 2020 - 2040; DRAFFT YMGYNGHORI

Datganodd y Cyng. Emrys Wynne gysylltiad personol â'r eitem hon gan fod aelod o'i deulu yn Arolygydd Cynllunio yng Nghymru.

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel adroddiad Llywodraeth Cymru: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040: Drafft Ymgynghori (a gylchredwyd yn barod) i ddarparu gwybodaeth i'r Cyngor am gynnwys dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru oherwydd yr effaith y bydd yn ei chael ar luniad Cynllun Datblygu Lleol nesaf y sir yn ogystal â'i bwysigrwydd fel ffynhonnell bolisi cenedlaethol i wneud penderfyniadau ar geisiadau ac apeliadau cynllunio.

Mae'r swyddogion wedi gweithio ar draws adrannau'r Cyngor er mwyn llunio'r ymateb i'r ymgynghoriad (Atodiad 1).

Unwaith y bydd wedi'i gwblhau bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) ym mis Medi 2020. Bydd y FfDC yn berthnasol i Gymru gyfan a bydd yn nodi goblygiadau defnydd tir polisiâu ac amcanion allweddol cenedlaethol. Mae'n nodi'r fframwaith ar gyfer datblygu cynlluniau haen isaf h.y. Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Nid oes Cynlluniau Datblygu Strategol yng Nghymru ar hyn o bryd.

Yn ystod trafodaeth fanwl codwyd y pwyntiau canlynol:

- Dywedwyd bod angen ehangu'r ymgynghoriad â'r cyhoedd.

Cadarnhaodd Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel fod dros 2000 o ymatebion wedi'u derbyn yn dilyn yr ymgynghoriad. [Cafwyd sylw ynglŷn ag ymgynghoriad cyn adneuo CDLI Cyngor Sir Ddinbych; nid y FfDC drafft]

- Roedd ansawdd y mapiau a ddarparwyd yn broblem fawr.
- Roedd pryder ynghylch y posibilrwydd o or-ddatblygu'r ardal arfordirol.
- Dylai tai fod yn ecogyfeillgar o ystyried yr argyfwng newid hinsawdd, ac mae hynny wedi'i gytuno arno yn dilyn Hysbysiad o Gynnig yn y Cyngor Llawn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr argyfwng newid hinsawdd yn y FfDC.
- Dywedodd yr Aelodau fod tai fforddiadwy yn broblem fawr a bod angen mwy o dai dwy ystafell wely. Mae'r FfDC yn nodi y dylai 51% o'r tai fod yn fforddiadwy ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw waith wedi'i wneud o ran a yw hynny'n hyfyw ac yn gyraeddadwy. Mae Cyngor Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn cynnal astudiaeth hyfywedd ar gyfer y CDLI newydd, o ran pa ganran o dai fforddiadwy y mae modd ei chynnwys yn y ddogfen. Os ceisir canran uchel o dai fforddiadwy drwy'r polisi lleol, ond yn groes i'r asesiad hyfywedd, ni fyddai hynny'n gyraeddadwy. Bydd y swyddogion yn siŵr o ddarparu gwybodaeth am unrhyw gynnydd mewn perthynas â'r CDLI i'r Aelodau.
- Mae yna amcangyfrif o ffigurau tai yn y FfDC nad ydynt yn ofyniad polisi ond, yn hytrach, yn seiliedig ar fodel Albanaid sydd wedi'i ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru.
- Mae cysylltiadau i dde Cymru, yn hytrach na gogledd Lloegr, wedi'u nodi fel blaenoriaeth. Cadarnhawyd fod y cysylltiad â Glannau Mersi a gogledd orllewin Lloegr wedi'i wneud oherwydd bod gan yr ardaloedd hyn economi cryfach. Cadarnhawyd hefyd fod angen cysylltu cludiant cyhoeddus â mwy o gymunedau.
- Cadarnhawyd y bydd pob mater a godir yn y cyfarfod yn cael ei fwydo'n ôl i Lywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd y bydd Bil Llywodraeth Leol yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn. Bydd y Bil yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â Chydbwyllgorau Corfforaethol a chyrrff rhanbarthol ond, hyd nes bydd y Bil wedi'i gyhoeddi, nid oes rhagor o wybodaeth i'w chyflwyno i Aelodau.

Dywedodd yr Arweinydd, y Cyng. Hugh Evans, fod CLILC wedi ymateb yn gryf i'r Bil o ran y gofynion gorfodol. Mae'n gwanhau lleoliaeth a mynegodd bryder ynghylch hynny. Bydd cyfarfod ddydd Gwener 18 Hydref 2019 a bydd yr Arweinydd yn mynegi'r holl bryderon.

Mynegodd y Cyng. Arwel Roberts bryder ynghylch nod Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dywedodd y Cyng. Roberts na fyddai'r Gymraeg yn goroesi os nad yw'n cael ei blaenoriaethu o fewn y FfDC ac felly roedd yn cynnig y dylid cynnwys diogelu'r Gymraeg yn y FfDC ac ymhob cynllun a gyflwynir. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Gwyneth Kensler.

Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd fod angen pleidleisio dros y diwygiad.

PLEIDLAIS:
O blaid – 28
Ymatal – 3
Yn erbyn – 3

Felly, pleidleisiwyd o blaid cynnwys y diwygiad yn yr argymhellion.

Ar y pwynt hwn, gofynnodd y Cyng. Gareth Davies am restr o'r goblygiadau cost ynghlwm wrth y diwygiad sydd newydd ei basio.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cytuno ar yr ymateb i'r ymgynghoriad drafft ynghylch y FfDC (Atodiad 1) ond i gynnwys y Gymraeg fel blaenoriaeth yn y FfDC er mwyn diogelu'r iaith. Bydd Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel yn cyflwyno'r ymateb terfynol i Lywodraeth Cymru ar ran Cyngor Sir Ddinbych dan y pwerau dirprwyedig.

Ar y pwynt hwn (11.20a.m.) cafwyd egwyl o 20 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.40 a.m.

8 DIWEDDARIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r adroddiad Diweddariadau i Gyfansoddiad y Cyngor (a gylchredwyd yn barod) i ddarparu diweddariad blynyddol i'r Cyngor a chynghori ar y newidiadau arfaethedig sydd angen eu gwneud i'r Gyfansoddiad.

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi bod yn rhaid i'r Pwyllgor ystyried unrhyw newid a fwriedir i Gyfansoddiad y Cyngor cyn iddo gael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor llawn, ac mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad ar y Cyfansoddiad o leiaf unwaith y flwyddyn o ystyried ei bwysigrwydd i fframwaith llywodraethu cyffredinol y Cyngor. Yn ei gyfarfod ar 11 Medi 2019 ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar y Cyfansoddiad ac argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau a nodir yn Atodiadau 1 a 2.

Mae'r Swyddog Monitro yn fodlon bod y Cyfansoddiad yn addas i'r diben ac yn cadarnhau bod y Cyfansoddiad wedi'i newid i gymryd y canlynol i ystyriaeth:

- Mae Adran 5.2 yn ymwneud â ffurf a chyfansoddiad y Cabinet wedi'i ddiwygio i adlewyrchu penderfyniad y Cyngor ar 19 Chwefror 2019
- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor, sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 19 Chwefror 2019
- Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau Gweithrediaeth – Gwnaethpwyd newidiadau i bortffolio Aelod Cabinet yn dilyn newidiadau a wnaed gan Arweinydd y Cyngor
- Cyfuno dau bwylgor presennol i ffurfio'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Iechyd a Diogelwch a Chysylltiadau Gweithwyr yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 28 Mawrth 2019
- Rhestr Taliad Cydnabyddiaeth Aelodau'r Cyngor yn cael ei ddiweddarau

Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried y newidiadau i'w gwneud i'r Cynllun dirprwyo o ran y newidiadau a wnaethpwyd yn sgil ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Ailstrwythurwyd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor ar 30 Mai 2019 i greu Model Darparu Amgen ar gyfer y Gwasanaethau Hamdden:

- Cynllun Dirprwyo Swyddog – mae'r cynllun arfaethedig yn Atodiad 1 yn delio gyda throsglwyddo rhai swyddogaethau sy'n ymwneud â thai; trosglwyddo rhai swyddogaethau ased ac ystadau a'r cyfrifoldeb o ran swyddogaethau hamdden yn dawel ac yn derbyn sylw dan gynllun y Cabinet.
- Cynllun Dirprwyo'r Cabinet (Atodiad 2) – darpariaeth ddatganedig sy'n nodi bod y swyddogaethau hyn yn gyfrifoldeb ar yr aelod arweiniol perthnasol.

PENDERFYNWYD:

- *Bod y Cyngor yn nodi'r newidiadau i'r Cyfansoddiad fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad*
- *Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo fel yr amlinellir yn Atodiadau 1 a 2 yr adroddiad.*

9 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Cyng. Barry Mellor (Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol) yr adroddiad (a gylchredwyd yn barod) i roi gwybod i bob Aelod am waith y Pwyllgor yn 2018/19.

Dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 mae'n ofyniad statudol i'r Cyngor gael Pwyllgor Archwilio. Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (y Pwyllgor) oedd pwyllgor dynodedig y Cyngor ar gyfer y diben hwn.

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn bod aelodaeth y Pwyllgor yn wleidyddol gytbwys ac yn cynnwys chwe Aelod Etholedig. Nid oes gofyniad statudol i'r Pwyllgor fod yn wleidyddol gytbwys. Ond mae'n rhaid cael o leiaf un aelod lleyg annibynnol sef, ar hyn o bryd, Mr Paul Whitham.

Mae Swyddog Adran 151 y Cyngor, Swyddog Monitro a Phennaeth Archwilio Mewnol, neu eu cynrychiolwyr, yn bresennol ymhob cyfarfod. Yn ychwanegol at hynny, mynychir pob cyfarfod gan swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi derbyn nifer o adroddiadau blynyddol mewnol ar faterion yn ymwneud â llywodraethu. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Adroddiad ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Adroddiad Blynyddol yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth
- Adroddiad Blynyddol Rhannu Pryderon

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn nifer o adroddiadau yn ymwneud â materion ariannol. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Datganiad Cyfrifon – ceir toreth o wybodaeth yn ymwneud â'r cyfrifon ac felly cyflwynir y drafft i'r Pwyllgor mewn cyfarfod cyn toriad yr haf ac yna fe gyflwynir y datganiad cyfrifon terfynol i'w cymeradwyo ym mis Medi.

- Rheoli Trysorlys – mae'r Pwyllgor yn derbyn dau adroddiad pob blwyddyn.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau rheoleiddio allanol. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru – roedd yr adroddiad ar y cyfan yn gadarnhaol iawn ac ni wnaethpwyd unrhyw argymhelliad sylweddol ar gyfer newid.
Cyflwynwyd chwech 'cynnig ar gyfer gwelliant i'r Cyngor ynghyd â champau gweithredu ar gyfer pob un.
- Llythyr Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru – roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau yn economaidd, effeithlon ac effeithiol. Hefyd, ni nodwyd unrhyw fater sylweddol a all effeithio ar gyfrifon 2018-19 na systemau ariannol allweddol.
- Trosolwg a Chraffu – daeth yr adroddiad i'r casgliad bod swyddogaeth drosolwg a chraffu'r Cyngor yn ymateb yn dda i heriau presennol. Fodd bynnag, gall gallu cyfyngedig i gefnogi craffu atal cynnydd yn y dyfodol.
- Defnydd Data'r Llywodraeth Leol – mae'r adroddiad yn nodi bod gan y Cyngor y sylfeini i ddefnyddio data yn well, ond bod angen gwella'r ffordd y caiff data ei ddadansoddi a'i gyflwyno i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Prif Archwilydd Mewnol ar y cynnydd a wneir yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor wedi cynnal hunanasesiad o'i berfformiad ei hun a'i gymharu â'r arfer gorau presennol. Gwnaed yr asesiad hwn yn erbyn rhestr wirio o ganllaw'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) "Pwyllgorau Archwilio – Canllaw Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu Rhifyn 2018".

Roedd y Pwyllgor wedi ystyried ei enw fel rhan o'r asesiad ac wedi dod i'r casgliad y dylai'r enw gynnwys cyfeiriad at y swyddogaeth bwysig o fod yn bwyllgor archwilio yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae'r Pwyllgor wedi argymhell mai Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio y dylid ei alw.

Cymerodd y Cyng. Barry Mellor y cyfle hwn i ddiolch i gynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru a'r holl swyddogion sy'n mynychu'r cyfarfodydd Llywodraethu Corfforaethol. Yn benodol, cydnabu faint o waith a wneir gan y tîm Archwilio Mewnol. Diolchwyd i bob aelod o'r Pwyllgor gan fod y rhaglenni yn aml yn hir a'r aelodau bob amser yn paratoi'n dda ar gyfer y cyfarfodydd. Diolchwyd hefyd i'r Aelodau Arweiniol am eu presenoldeb mewn Pwyllgorau ac am eu cefnogaeth.

Mynegodd aelodau eu diolch i'r Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am eu holl waith caled.

PENDERFYNWYD:

- *Bod y Cyngor Llawn yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol*
- *Newid enw'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio*

10 ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGORAU CRAFFU'R CYNGOR 2018/2019

Datganodd y Cadeirydd, y Cyng. Meirick Lloyd Davies, gysylltiad personol gan ei fod yn aelod o Fwrdd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Cyflwynodd y Cyng. Graham Timms Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Craffu'r Cyngor (a gylchredwyd yn barod) ar eu gweithgareddau yn ystod 2018/19.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn un o ofynion Adran 7.4.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, sy'n nodi bod yn rhaid i Bwyllgorau Craffu adrodd yn flynyddol i'r Cyngor Llawn am eu gwaith gydag argymhellion ar gyfer eu rhaglenni gwaith i'r dyfodol ac ar ddulliau gweithio diwygiedig os yw hynny'n briodol.

Eglurodd y Cyng. Timms pam bod yr adroddiad yn hwyr yn cael ei gyflwyno oherwydd bod y Swyddog Craffu wedi bod yn rhan o'r Ymchwiliad i Ddân Llantysilio sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Caiff ffurflenni testunau craffu eu cyflwyno gan aelodau, swyddogion ac aelodau o'r cyhoedd, a'u rhoi i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu sy'n defnyddio'r meini prawf i benderfynu a yw eitem yn deilwng o sylw neu beidio.

Mae'r adroddiad yn amlinellu rôl bwysig y Pwyllgorau Craffu o ran cefnogi gwaith y Cyngor i ddarparu ei flaenoriaethau corfforaethol a'r Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys monitro darpariaeth y Cynllun yn rheolaidd.

Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi parhau i gymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori a gwahodd nifer o sefydliadau allanol a phartneriaid i gyfarfod gyda phwyllgorau i drafod meysydd o ddiddordeb neu bryderon cyffredin.

Mae ymgysylltu â'r cyhoedd ac annog preswylwyr i ryngweithio â'r broses graffu yn her, ond mae preswylwyr ac unigolion eraill o'r tu allan wedi ymgysylltu ynghylch dau fater sylweddol yn ymwneud â phenderfyniadau'r Cabinet a alwyd i mewn. Roedd y penderfyniadau yn ymwneud â safleoedd sipsiwn a theithwyr yn y sir ac ymchwiliad craffu i dân mynydd Llantysilio yn ystod haf 2018.

Cytunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn ffurfiol i sefydlu Cydbwyllgor Craffu i graffu ar y Fwrdd Gwasanaethau Lleol, sef y pwyllgor cyntaf o'r fath yng Nghymru. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf fis Mai 2019.

Hefyd yn yr adroddiad blynyddol fe geir gwybodaeth am y grwpiau tasg a gorffen/gweithgorau sy'n gweithredu dan nawdd Pwyllgorau Craffu'r Cyngor.

Diolchodd y Cyng. Timms a'r Aelodau eraill i'r Swyddog Craffu, Rhian Evans, am ei chefnogaeth a'i gwaith campus drwy gydol y flwyddyn. Diolchwyd hefyd i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, Steve Price, am ei gefnogaeth a'i waith. Mynegodd yr Aelodau eu pryderon ynghylch y pwysau ar swyddogion craffu oherwydd eu llwyth gwaith.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2018/19.

11 ADOLYGU DOSBARTHADAU ETHOLIADOL A MANNAU PLEIDLEISIO

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd, Steve Price, adroddiad ar yr Adolygiad o Ddosbarthiadau Etholiadol a Mannau Pleidleisio (a gylchredwyd yn barod) i dderbyn cytundeb y Cyngor i'r Dosbarthiadau Etholiadol a Mannau Pleidleisio a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i rannu ei ardal yn ddosbarthiadau etholiadol a dynodi man pleidleisio ar gyfer bob dosbarth. Mae hefyd yn ddyletswydd statudol i adolygu'r trefniadau hyn.

Yn ystod y drafodaeth eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal rhwng 1 Gorffennaf 2019 a 6 Medi 2019, a gwahoddiwyd etholwyr a phartïon â diddordeb i gyflwyno sylwadau ar y trefniadau presennol.

Ni fu i'r ymgynghoriad cyhoeddus godi unrhyw newid sylweddol ar wahân i ychwanegu ychydig o fannau pleidleisio:

- Defnyddio Adeilad 3 (ar gampws Ysgol Glan Clwyd / Canolfan Hamdden Llanelwy) fel man pleidleisio ar gyfer dosbarth etholiadol BLS os yw'r gwaith ail-fodelu yn gwneud yr adeilad yn addas i'w ddefnyddio fel man pleidleisio.
- Defnyddio Clwb Rygbi'r Rhyl ar Ffordd Tynewydd, y Rhyl fel Man Pleidleisio BRB os yw ar gael i'w ddefnyddio fel man pleidleisio.
- Defnyddio Canolfan Gymunedol Cyngor Tref Rhuthun yn yr Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun fel Man Pleidleisio CAA yn dilyn cau Canolfan Awelon.

Roedd pryder ynghylch defnyddio'r Hen Lys ar Sgwâr Sant Pedr oherwydd nad oes cyfleusterau parcio i bleidleiswyr.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor Sir yn cytuno â'r trefniadau presennol ar gyfer dosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio fel y manylir yn Atodiad 1, yn amodol ar awdurdodi'r canlynol:

- Defnyddio Adeilad 3 (ar gampws Ysgol Glan Clwyd / Canolfan Hamdden Llanelwy) fel man pleidleisio ar gyfer dosbarth etholiadol BLA os yw'r gwaith ail-fodelu yn gwneud yr adeilad yn addas i'w ddefnyddio fel man pleidleisio;
- Defnyddio Clwb Rygbi'r Rhyl ar Ffordd Tynewydd, y Rhyl fel Man Pleidleisio BRB os yw ar gael i'w ddefnyddio fel man pleidleisio; a
- Defnyddio Canolfan Gymunedol Cyngor Tref Rhuthun yn yr Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun fel Man Pleidleisio CAA yn dilyn cau Canolfan Awelon.

12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor ynghyd â Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Briffio'r Cyngor (a ddosbarthwyd yn barod).

Cadarnhawyd y bydd Gweithdy Cyllideb yn cael ei gynnal ar 3 Rhagfyr 2019 am 10.00 a.m.

Bydd cyfarfod y Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr 2019 yn dechrau am 2.00 p.m. Hyd yma, nid oes unrhyw eitem ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac os yw'n parhau felly bydd y cyfarfod yn cael ei ganslo.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor a Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Briffio'r Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Cyngor Sir
Dyddiad y cyfarfod	28 Ionawr 2020
Aelod / Swyddog Arweiniol	Julian Thompson Hill
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Cyllideb 2020/21 – Cynigion Terfynol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn nodi goblygiadau Setliad Llywodraeth Leol 2020/21 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2020/21.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys y gellir ei chyflawni cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a gosod lefel sy'n deillio o Dreth y Cyngor i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.

2.2 Darparu trosolwg o broses y gyllideb ac effaith y Setliad Llywodraeth Leol a chymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2020/21, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Nodi effaith Setliad Llywodraeth Leol 2020/21.

3.2 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynigion a amlinellwyd yn Atodiad 1, a manylwyd yn Adran 4, er mwyn cwblhau'r gyllideb ar gyfer 2020/21.

3.3 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnydd ar gyfartaledd o 4.3% arfaethedig yn Nhreth y Cyngor.

3.4 Bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian wedi'i gynnwys yng nghynigion y

gyllideb gan hyd at £500k os oes yna symud rhwng y ffigyrau setliad drafft a therfynol er mwyn gallu gosod Treth y Cyngor yn amserol.

3.5 Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Derbyniodd y cyngor y Setliad Llywodraeth Leol Drafft ar gyfer 2020/21 ar 16 Rhagfyr ac arweiniodd at setliad cadarnhaol o +4.3% oedd hefyd yn safle cyfartalog Cymru. Disgwylir y Setliad Terfynol ar 25 Chwefror ond mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi nodi na fydd yna lawer o newidiadau.

4.2 Fel rhan o'r setliad roedd yna 'drosglwyddiadau i mewn' o £1.794miliwn yn bennaf yn ymwneud â throsglwyddo grant am rhan o'r flwyddyn ar gyfer Tâl Athrawon a Grant Pensiwn Athrawon. Mae angen ariannu effaith blwyddyn lawn y grantiau hyn o'r setliad cyffredinol.

4.3 Mae cynigion terfynol i gydbwysu cyllideb 2020/21 wedi eu dangos yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn Atodiad 1. Y prif feysydd twf a phwysau yw:

- Pwysau tâl o £1.124 miliwn
- Chwyddiant prisiau ac ynni £250k
- Ardoll y Gwasanaeth Tân £93k
- Lwfans ar gyfer cynnydd yn y Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor £350k.
- Pwysau chwyddiant ysgolion yn cael eu cydnabod yn swm o £2.852miliwn
- Pwysau demograffig ysgolion £716k
- £2.6miliwn i gydnabod pwysau'r galw a rhagolygon mewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol fel rhan o strategaeth tymor hir y cyngor i reoli cyllidebau gofal
- £1.546miliwn i gydnabod pwysau presennol mewn Addysg a Gwasanaethau Plant sy'n ymwneud â Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir ac Adennill.
- £1.4miliwn o bwysau mewn Gwasanaethau Gwastraff wedi eu cydnabod yn seiliedig ar bwysau yn ystod y flwyddyn
- £600k o bwysau pellach wedi'i gydnabod yn ymwneud â chludiant i'r ysgol
- £529k o bwysau wedi'i gynnwys i ariannu Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol
- Oherwydd graddfa'r pwysau mae arian wrth gefn gwerth £358miliwn wedi'i gynnwys

4.4 Mae'r pwysau a nodwyd uchod yn swm o £12.418miliwn. Mae'r effaith defnyddio £2miliwn o arian yn 2019/20 (sydd ag effaith o ohirio'r angen i nodi arbedion) yn golygu bod cyfanswm y diffyg yn £14.418miliwn. Byddai angen setliad drafft o +10% er mwyn ariannu'r pwysau hyn i gyd. Mae'r +4.3% o setliad yn cynhyrchu £6.219miliwn o refeniw ychwanegol gan adael bwloch cyllido o £8.199miliwn. Mae'r eitemau canlynol wedi eu cynnwys yn y cynigion er mwyn pontio'r bwloch hwnnw:

- £2miliwn o arbedion wedi eu cynnwys o ganlyniad i refeniw actiwari teirblwydd Cronfa Bensiynau Clwyd. Roedd yr adolygiad yn amlygu'r perfformiad gwell na rhagwelwyd yn gyffredinol ac i CSDd yn arbennig. Mae'r effaith yn golygu bod y taliadau ad-dalu diffyg blynyddol yn gallu lleihau'n sylweddol tra'n cynnal y 'llwybr hedfan' o gael cynllun wedi'i ariannu'n llawn erbyn 2033.
- Roedd gwasanaethau wedi derbyn y dasg gychwynol o ganfod 5.5% o arbedion a fyddai wedi cynhyrchu oddeutu £6miliwn o arbedion – ond byddai hefyd wedi cynnwys diswyddiadau a thoriadau mewn gwasanaethau. Oherwydd y setliad gwell na'r disgwyl ac yn dilyn craffu dwys o holl gynigion gan y Bwrdd Cyllideb, yr arbedion hynny sy'n ffurfio rhan o'r penderfyniadau o ddydd i ddydd Penaethiaid Gwasanaeth ac sydd ag ychydig neu dim effaith ar wasanaethau i'r cyhoedd sydd wedi eu bwrw ymlaen. Roedd yr arbedion wedi eu dosbarthu i aelodau etholedig ym mis Rhagfyr ac maent wedi eu cynnwys yn adran y llyfrgell ar Modern.gov. Mae pob cynnig angen penderfyniadau dirprwyol yn unig, naill ai i benaethiaid gwasanaeth neu aelodau arweiniol, felly nid oes angen unrhyw benderfyniadau penodol gan y Cabinet na'r Cyngor. Mae'r cynigion yn cyfrannu cyfanswm o £1.756miliwn.
- Gofynnwyd i ysgolion, ers dechrau'r haf i ddod o hyd i 2% o arbedion effeithlonrwydd (£1.385miliwn). Oherwydd y setliad gwell na'r disgwyl roedd hwn wedi'i ostwng i 1% (£0.692miliwn). Wrth i gyllidebau ysgol gael eu datganoli, bydd pob corff llywodraethu yn penderfynu sut y cyflawnir yr arbedion.
- Argymhellir bod £685 mil o'r arian, sydd eisoes wedi'i glustnodi i helpu i leddfu'r gostyngiadau yn y gyllideb yn cael ei ddefnyddio ar gyfer 2020/21. Roedd y ffigwr hwn yn £1.085miliwn yn wreiddiol.
- Argymhellir bod Treth y Cyngor yn cynyddu 4.3% fydd yn creu £2.298miliwn o refeniw ychwanegol. Mae hyn yn cymharu gyda chynnydd y llynedd o 6.35% a hefyd yn dangos gostyngiad o 0.5% o'i gymharu â'r 4.8% a dybiwyd yn flaenorol ar gyfer 2020/21, felly yn cydnabod y setliad gwell na'r disgwyl.

- Yn olaf, mae Sylfaen Treth y Cyngor wedi cynyddu mwy na'r disgwyl eleni sy'n golygu y rhagwelir Treth y Cyngor ychwanegol o £486 mil. Mae'r Sylfaen hefyd yn effeithio ar y Grant Cynnal Refeniw ac mae hyn wedi golygu bod y cyngor wedi elwa £282 mil.

Yn ogystal, bydd y gostyngiad yn y gofyniad am arian yn arwain at £400 mil yn aros yn y Gronfa Wrth Gefn i Leddfu'r Gyllideb a argymhellir i'w ryddhau i helpu i ariannu camau cychwynnol y prosiect Targed Di-garbon a'r pwysau sy'n ymwneud â Chlefyd Coed Ynn (cynnig i ddyrannu £200 mil i bob prosiect). Bydd y cyllid hwn yn caniatáu i'r prosiectau gynhyrchu cynlluniau gwario manwl y gellir eu hystyried a'u cynnwys yn ystyriaethau cyllideb y flwyddyn nesaf.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau'r cyngor a chyflawni strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni yn sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol. Mae'r cynigion yn cynnwys dyraniadau i gefnogi'r blaenoriaethau.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nodir manylion yn Adran 4.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Mae Asesiad o Effaith ar Les cynnydd yn Nhreth y Cyngor wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi'i hystyried gan gyfarfodydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Briffio'r Cabinet a Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgol wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy'r flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Eleni roedd yna hefyd ymarfer ymgysylltu gyda'r cyhoedd

yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, datblygir y profiad yn y blynyddoedd yn y dyfodol (gweler Atodiad 4).

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae'r ansicrwydd dros lefel ac amseriad y setliadau ariannol yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud cynllunio ariannol hyd yn oed yn fwy heriol. Fodd bynnag, roedd y setliad drafft pan gyhoeddwyd yn croesawu setliadau cadarnhaol yn ôl sydd gobeithio yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith a gyflawnir gan Lywodraeth Leol a'r pwysau a wynebir.

9.2 Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cynnig dull cytbwys sy'n cymryd yr egwyddorion canlynol i ystyriaeth:

- Anelu i gydnabod ac unioni pwysau o fewn blwyddyn a rhagolygon gymaint â phosibl er mwyn datblygu cadernid.
- Sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu herio i gyflawni gwasanaethau effeithiol, ond i geisio lleihau effaith cynigion ar ddefnyddwyr gwasanaeth a staff.
- Cadw cynnydd yn Nhrefn y Cyngor mor isel ag ymarferol bosibl.
- Cyfyngu'r defnydd o arian sydd ond yn gohirio'r angen i nodi arbedion.
- Cynnal cyllid ar gyfer blaenoriaethau corfforaethol.

9.3 Oherwydd y dyddiad hwyr iawn ar gyfer y Setliad Terfynol, argymhellir bod y Cabinet a'r Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb gan hyd at £500 mil. Roedd LIC wedi nodi ei bod yn annhebygol y byddai yna unrhyw newidiadau materol, fodd bynnag roedd yn ddoeth cytuno ar gynllun wrth gefn ymlaen llaw.

9.4 Os nad yw'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cael eu derbyn, mae'n rhaid cyflwyno cynigion eraill i gydbwysu'r gyllideb.

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau nhw?

Mae proses y gyllideb ynddi ei hun yn fesur ar gyfer rheoli risg, gyda'r nod o nodi, asesu a chytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd cynlluniedig ac amserol. Byddai methu a

chytuno ar y cynigion hyn, heb gynnig cynigion posibl eraill, yn peryglu cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2020/21.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Appendix 1

Final Proposals 2020/21

	2019/20 £'000	2020/21 £'000	2021/22 £'000	2022/23 £'000
Funding				
Revenue Support Grant & NNDR (RSG)	143,637	151,932	149,653	147,408
Council Tax	52,901	55,685	58,139	60,698
SSA / Budget Requirement	196,538	207,616	207,791	208,106
Use of Balances	2,000	685		
Total Funding	198,538	208,301	207,791	208,106
Expenditure				
Base Budget	194,418	198,538	208,302	213,334
Inflation / Pressures:				
Pay	1,587	1,124	1,019	1,019
Pensions	350		350	350
Price - targeted	100	100	100	100
Price - NSI Energy	150	150	150	150
